

Partneriaeth Talysarn & Nantlle



Bwletin Ward Talysarn

Hydref - Rhagfyr 2007

SWYDDOG DATBLYGU A CYMHORTHYDD IEUENCTID

Llongyfarchiadau i Glenys Lloyd Williams sydd wedi ei phenodi fel Swyddog Datblygu Talysarn a Nantlle. Mae Glenys wedi cychwyn yn y swydd 7fed Ionawr 2008 ac yn edrych ymlaen i weithio gyda Partneriaeth Talysarn a Nantlle a grwpiau lleol er mwyn ceisio datblygu prosiectau sy'n cael eu hawgrymu yn adroddiad "Planning For Real®".

Croeso yn ôl hefyd i Nick Thomas, Cymhorthydd Ieuencid, ar ôl ei anaf yn chwarae pêl-droed i dîm anabl Lloegr yng nghystadleuaeth Pencampwriaeth Ewrop a gynhaliwyd yn Nhwrri fis Rhagfyr 2007. Mae Nick yn awyddus i weithio gydag unigolion a grwpiau er mwyn rhoi cyfle i bobl ifanc dan 25 gael ceisio datblygu yr hyn mae nhw eisiau eu wneud.



*Glenys Lloyd Williams (Swyddog Datblygu Talysarn a Nantlle)
a Nick Thomas (Cymhorthydd Ieuencid)*

Gallwch gysylltu â Glenys a Nick yn swyddfa Partneriaeth Talysarn a Nantlle ar y rhif 01286 881103. Bydd Nick yn cynnal sesiynau arbennig i bobl ifanc gael cyfle i gymeryd rhan bob nos lau yng Nghanolfan Gymdeithasol Talysarn o 7-9yh.

WWW.NANTLLE.COM

Gobeithio eich bod wedi ymweld â'r wefan yn ddiweddar ac yn cael eich plesio gyda'r arlwy. Cofiwch anfon y cyfeiriad i deulu a ffrindiau ymhob rhan o'r byd er mwyn iddynt gael blas o'r Dyffryn. Anfonwch adborth a'ch syniadau i ni - rydym eisiau clywed eich barn.

Cofiwch hefyd anfon gwybodaeth am eich grwp / cymdeithas – pwy yw'r swyddogion, beth sydd yn digwydd, unrhyw newyddion lleol ayb. I'r rhai ohonoch sydd yn ymddiddori mewn hanes - mae digon o luniau a storïau ar gael. Darllenwch dudalennau newydd Y Mabinogi er mwyn dysgu neu ail-ddysgu am y chwedlau hynod. Mae gennym gemau, swdocw a chornel newydd i'r plant hefyd – dim rheswm i fod heb ddim i'w wneud. Cofiwch

AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â
Canolfan Cymdeithasol Talysarn

Ffordd Yr Orsaf . Talysarn . Gwynedd . LL54 6HL

Ffôn: 01286 881103

E-bost: dafydd.partneriaethtalysarnanant@btoopenworld.com



communities first cymunedau yn gyntaf



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

edrych ar yr hysbysfwrdd rhag ofn fod gennych atebion neu gwestiwn eich hun i'w ofyn. Ar gael hefyd y wybodaeth ddiweddaraf o'r Cyngor Cymuned – cadwch i fyny hefo'r datblygiadau diweddaraf.

Ar gychwyn blwyddyn newydd mae cynnig arbennig i fusnesau'r ardal i hysbysebu ar y wefan yn rhad ac am ddim. Dyma gynllun ar y cyd hefo Antur Nantlle Cyf ac sydd wedi ei ariannu can Cymunedau@eigilydd drwy gwmni Deudraeth Cyf. Beth am lenwi'r blwch isod a'i anfon atom neu cysylltwch drwy'r adran busnesau ar y wefan neu post@nantlle.com. Cofiwch fod hyd at 10,000 y mis yn ymweld â'r wefan - dyma gyfle na ddylai unrhyw fusnes ei anwybyddu.

CYFEIRLYFR BUSNES DIGIDOL

Hoffwn gynnwys manylion fy busnes ar www.nantlle.com

Enw'r busnes:

Math o fusnes:

Enw cyswllt a chyfeiriad:

.....

Ffon: E-bost:

(Os oes gennych logo i'w gynnwys – anfonwch gyda'r ffurflen hon i Swyddfa Partneriaeth Talysarn a Nantlle, Canolfan Cymdeithasol Talysarn, LL54 6HL 01286 881103 neu Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle).

Blwyddyn Newydd Dda i bawb gan grŵp www.nantlle.com a chofiwch ddal i gyfrannu i'r wefan ar hyd 2008 - byddwn yn falch o glywed oddi wrthyh.

CLWB SAETHYDDIAETH DYFFRYN NANTLLE

Mae Clwb Saethyddiaeth (archery) Dyffryn Nantlle wedi bod yn cynnig sesiynnau ar nos Wener yng Nghanolfan Gymdeithasol Talysarn. Mae'r sesiynau wedi bod yn boblogaidd iawn gyda 20 person lleol wedi cwblhau'r cwrs chwech wythnos gyntaf. Mae 12 noson wedi ei gynnal erbyn hyn gyda pob un noson yn brysur iawn. Mae llawer o drigolion Talysarn a Nantlle wedi rhoi eu henwau i lawr ar gyfer cyrsiau cychwynol sydd yn cychwyn ym mis Ionawr a fis Chwefror 2008. Mae yna 27 o bobl wedi rhoi eu henwau ar y rhestr aros ers i ni gychwyn yn Nhalysarn. Os oes gan bobl ddiddordeb, mae'r clwb yn y ganolfan bob nos Wener o 6.30-8.30yh. Beth am ddod draw i gael sgwrs? Mae'r cwrs yn parhau am 6 wythnos ac yn costio £1 y noson. Mae angen i bawb sydd o dan 16 ddod hefo oedolyn, ond mae croeso i'r oedolion gymeryd rhan hefyd. Nid oes rhaid cael offer eich hun. Am fwy o wybodaeth ffoniwch Val Owen ar 01286 881360.

CANOLFAN GYMDEITHASOL TALYSARN

Rydym wedi bod yn brysur iawn yn y Ganolfan yn paratoi am y Nadolig. Ar 24ain Tachwedd cynhaliwyd Ffair Grefftau llwyddiannus iawn gyda pob math o stondinau yn gwerthu addurniadau, pethau wedi eu gwau, bwydydd a chardiau Nadolig ayyb.

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

Prynhawn dydd Llun 17eg Rhagfyr daeth llawer o gymdogion y pentref at ei gilydd i'r Ganolfan i fwynhau cinio Nadolig 3 chwrs wedi ei baratoi gan Lis a gwirfoddolwyr o'r pentref. Diolch mawr iddynt hwy am eu gwaith caled. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn unwaith eto eleni. Edrychwn ymlaen i'ch gweld yn y Flwyddyn Newydd, bydd llawer o bethau newydd yn mynd ymlaen yn y Ganolfan.

BAND ARIAN DYFFRYN NANTLLE

Fu i'r Band gystadlu'n ddiweddar yng nghystadlaeth blynyddol Rali Gogledd Cymru yn Rhyl, ac yn dilyn y drydedd safle y llynedd, fe fu i'r band orffen yn y bedwaredd safle eleni. Fu i'r band iau dderbyn ail safle teilwng iawn am yr ail flwyddyn yn olynol, felly llongyfarchiadau mawr iddynt! Mae'r band hon yn parhau i gystadlu yn erbyn bandiau llawer mwy o gwmpas Gogledd Cymru, ac mi fuasai'r band yn falch iawn o groesawu aelodau newydd sydd yn gallu chwarae offerynau pres, neu awydd dysgu. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Gareth Williams 01286 882269. Bydd paratodau yn cychwyn fis Ionawr ar gyfer digwyddiadau'r haf, e.e. Gwyl Fai, Rail Ale, a hefyd, ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae'n siwr bod trigolion Talysarn wedi sylwi ar yr adnewyddiad mawr sydd yn mynd ymlaen yn y 'Bandroom'. Mae'r band wedi symud allan er mwyn i'r adeiladwyr gael gweithio ar y tô, ffenestri, lloriau a'r toiledau/cegin newydd, ynghyd â maes parcio. Mae pawb yn edrych ymlaen yn fawr i symud yn ôl i'r adeilad newydd yn fuan yn y Flwyddyn Newydd, ond yn y cyfamser yr ydym yn gwerthfawrogi'n fawr cael defnyddio Capel Nantlle am ymarferion a chyfarfodydd.

GRŴP BLODEUWEDD

Er bod y tywydd erbyn hyn ddim yn ffafriol, mae Blodeuwedd yn dal yn brysur iawn yn datblygu prosiectau ar gyfer y gwanwyn. Rydym yn gobeithio, unwaith eto, cydweithio gyda phlant ysgol Talysarn i blanu tua 20 o goed o amgylch nifer o safleoedd yn Nhalysarn ddiwedd y gaeaf/dechrau'r gwanwyn, sydd yn ddibynol ar ganiatâd terfynol gan Gyngor Gwynedd. Y gobaith hefyd fydd i gydweithio hefo'r plant i blanu o gwmpas byngalos Gloddfa Glai ar ddechrau'r haf.

Mae'r grŵp hefyd wedi gofyn i Gyngor Gwynedd am fwy o finiau baw cŵn o gwmpas Talysarn a Nantlle, a dros y blynyddoedd diwethaf maent wedi perswadio'r cyngor i wneud hyn pan fu arian ganddynt. Fu i'r grŵp berswadio'r cyngor i newid eu polisi, a gadael iddynt ail gylchu dros 500 o blanhigion yr oeddynt wedi eu tyllu o gwmpas Plas Silyn, Penygroes. Gyda gofal, fe fydd y planhigion yma yn cael eu defnyddio eto o gwmpas Talysarn a Nantlle haf nesaf a bydd grwpiau eraill yn gallu ailgylchu planhigion fuasai fel arall wedi cael eu gwared. Fe fydd y Tê Prynhawn yn dechrau'n ôl fis Ebrill 2008.

Am fwy on fanylion am y grŵp, cysylltwch â Tom Coleman ar 01286 882354 neu tom@cymru1.net.

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

GRŴP AMGYLCHEDD DYFFRYN NANTLLE

Ar ddechrau fis Rhagfyr fe addurnwyd “Coeden Nadolig gyda Gwahaniaeth” y Ganolfan. Fu i blant lleol helpu i addurno'r goeden gydag addurniadau wedi eu gwneud o ddefnyddiau naturiol ac wedi eu hailgylchu a oedd wedi eu casglu'n lleol. Fe ddaeth nifer o bobl i ddysgu sut i wneud blodeudorch, cardiau ac addurniadau bwrdd i'r cartref, gyda chymorth aelodau'r Grŵp Amgylchedd. Gobeithio bod yr achlysur wedi gwneud i chi feddwl ychydig a gobeithio arbed y gormodedd sy'n deillio o'r Nadolig traddodiadol. Diolch i bawb wnaeth gynorthwyo ar y diwrnod, a phaidiwch ag anghofio ailgylchu'r cardiau Nadolig.

Grŵp annibynol, gwirfoddol sydd wedi cael ei sefydlu i warchod a hyrwyddo amgylchedd naturiol a diwylliannol ardal Dyffryn Nantlle yw Grŵp Amgylchedd Dyffryn Nantlle. Mae'r aelodau yn bobl sydd yn byw yn lleol ac yn pryderu am yr amgylchedd. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar y dydd lau cyntaf o bob mis a bydd croeso i bawb ymuno. Am fwy o wybodaeth cysylltwch

DYDDIADAU CYFARFOD Y BARTNERIAETH 2008

Mawrth 3	-	Canolfan Llys Llywelyn Nantlle
Ebrill 7	-	Talysarn
Mai	-	Canolfan Llys Llywelyn Nantlle
Mehefin 2	-	Talysarn
Gorffennaf 7	-	Canolfan Llys Llywelyn Nantlle
Medi 1	-	Talysarn
Hydref 6	-	Canolfan Llys Llywelyn Nantlle
Tachwedd 3	-	Talysarn
Rhagfyr 1	-	Canolfan Llys Llywelyn Nantlle

Blwch Syniadau

Os oes gennych chi syniadau yr hoffech i'r Bartneriaeth eu hystyried, rhowch nhw yn y blwch yma a'i ddanfon at Dafydd Williams yng Nghanolfan Cymdeithasol Talysarn.

Enw:

Cyfeiriad:

Syniadau:

.....

.....

**AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â
Canolfan Cymdeithasol Talysarn**

Ffordd Yr Orsaf . Talysarn . Gwynedd . LL54 6HL

Ffôn: 01286 881103

E-bost: dafydd.partneriaeth@talysarnant@btpopenworld.com